ColegLlandrilloCymru

ColegMeirion-Dwyfor



Arweiniad i Gyrsiau Gradd

2il Aggraffiad

2012/13

@colegllandrillo

facebook.com/colegllandrillo

www.llandrillo.ac.uk

CYNNWYS

03 Gair o Groeso gan y Prifathro
04 Pa gwrs Gradd yw'r un iawn i chi?
05 Pam dewis Coleg Llandrillo Cymru?
06 Sut gallwn ni helpu?

CYRSIAU GRADD YNG NGHOLEG LLANDRILLO CYMRU
08 Celf a Dylunio
09 Peirianneg Cerbydau Modur
10 Busnes, Rheoli a Chyllid
12 Peirianneg Sifil ac Adeiladu
14 Cyfrifiadura a Thechnoleg Gwybodaeth
16 Astudiaethau Byddardod
17 Peirianneg, Ynni a Phŵer
18 Astudiaethau Iechyd a Gofal
22 Lletygarwch ac Arlwyo
24 Y Llyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth
24 Technoleg Forol
25 Cynhyrchu Cyfryngol
26 Ffotograffiaeth
27 Astudiaethau Heddlu
28 Polisïau Cyhoeddus a Chymdeithasol
29 Ynni Adnewyddol ac Adeiladu Cynaliadwy
30 Rheoli ym maes Manwerthu
31 Chwaraeon
32 Hyfforddiant Athrawon
34 Teithio a Thwristiaeth

GWYBODAETH YCHWANEGOL
36 Beth arall ddylwn i ei wybod?
38 Sut mae cysylltu â'r Coleg?

GWYBODAETH A CHYNGOR AM Y CYRSIAU

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Cyngor ac Arweiniad ar **01492 542 338/9** neu anfonwch neges e-bost i **degrees@llandrillo.ac.uk** neu edrychwch ar ein gwefan **www.llandrillo.ac.uk**

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

*** Cofrestrir myfyrwyr a dderbynnir i Goleg Llandrillo Cymru o Fedi 2012 ymlaen ar raglen a fydd yn arwain at ddyfarniad gan Brifysgol Glyndŵr. Rhoddwyd Pwerau Dyfarnu Graddau a statws prifysgol i Brifysgol Glyndŵr yn 2008 ac, yn dilyn cyfnod o ddatblygu, penderfynodd ddefnyddio ei phwerau dyfarnu graddau.

**** Gradd Prifysgol Cymru a ddyfernir gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

***** Dilysir a dyfernir gan Brifysgol Cymru, Casnewydd

Mae Coleg Llandrillo Cymru'n herio pob ffurf ar wahaniaethu ac yn cadw golwg ar ba mor effeithiol yw ei bolisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Gallwch weld y polisïau ar wefan y Coleg. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn awyddus i sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r Coleg yn cael eu trin yn deg. Mae'r Coleg yn falch o allu cynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol er mwyn i fyfyrwyr ac ymwelwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledd allu defnyddio ein cyfleusterau a'n gwasanaethau. Os ydych yn bwriadu dod i un o safleoedd y Coleg a bod gennych ofynion penodol, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Dysgu ar **01492 546 666** est. **599** neu â'r derbynfeydd ar Gampysau Coleg Meirion-Dwyfor, cyn eich ymweliad.

www.viewcreative.co.uk

GAIR O GROESO GAN Y PRIFATHRO

Mae dewis astudio am radd yn benderfyniad pwysig, ac rydym yn falch eich bod yn ystyried astudio yng Ngholeg Llandrillo Cymru.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau gradd Sylfaen ac Anrhydedd wedi'u dilysu gan Brifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru/Casnewydd ac Athrofa Prifysgol Cymru/Caerdydd (UWIC).

Mae'r cymwysterau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â byd gwaith. Cawsant eu datblygu drwy ymgynghori â chyflogwyr ac, felly, fe welwch y bydd eich darpar gyflogwr yn parchu'r radd y byddwch wedi'i hennill.

Gallech hefyd arbed rhai miloedd o bunnau drwy astudio'n lleol, o gymharu â chostau mynd i brifysgol bell, ac mae hynny'n werth ei ystyried yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Coleg Llandrillo Cymru ei fod wedi sefydlu Partneriaeth Strategol newydd â Phrifysgol Bangor gyda'r nod o ehangu mynediad a chyfoethogi cyfleoedd Addysg Uwch yng Ngogledd-orllewin Cymru. Bydd y Ganolfan Brifysgol newydd ar Gampws Llandrillo-yn-Rhos yn darparu cyfleusterau pwrpasol i fyfyrwyr Addysg Uwch. Yn unol â'r bartneriaeth, bydd mwyafrif y myfyrwyr Addysg Uwch a fydd yn cofrestru yn y Coleg yn cwblhau cyrsiau wedi'u dilysu gan Brifysgol Bangor.

Er bod y ffioedd wedi cynyddu ar gyfer 2012, ni fydd yn rhaid i fwyafrif y myfyrwyr o Gymru dalu llawer mwy nag yn 2011. Cewch wybodaeth am hyn gan y Tîm Gwasanaethau i Fyfyrwyr yn ein Canolfannau Cyngor ac Arweiniad.

Mae Coleg Llandrillo Cymru'n un o golegau mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig, ac mae wedi rhagori ym mhob arolygiad diweddar, gan gynnwys yr adolygiad o'i ddarpariaeth Addysg Uwch a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Pa gwrs bynnag a ddewiswch, gallwch fod yn sicr y bydd safon yr addysgu'n ardderchog ac y cewch sylw personol; nodwyd yn yr Adolygiad Addysg Uwch bod yr arweiniad a'r gefnogaeth a roddwn i'n myfyrwyr yn rhagorol.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Coleg.

Huw Evans OBE, BSc, MPhil, FIMgt
Prifathro

PA GWRS GRADD YW'R UN IAWN I CHI?

Rydym yn cynnig Graddau Sylfaen a Graddau Anrhydedd mewn amryw o bynciau. Eglurir yn fanylach, yn nes ymlaen, beth a gynigir ym mhob maes pwnc.

GRADD SYLFAEN

Yn gyffredinol, mae Gradd Sylfaen yn werth 240 o gredydau. I astudio'r rhan fwyaf o'r cyrsiau hyn, mae gofyn i'r myfyriwr un ai fod yn gweithio neu gael profiad gwaith sylweddol. Yn wahanol i rai cyrsiau gradd, nid ymdrin â theori'n unig y mae'r rhain. Byddant yn rhoi i chi'r wybodaeth a'r sgiliau y mae ar gyflogwyr eu heisiau drwy gyfuno gwaith theori â'r defnydd a wneir ohono yn y gweithle. Bydd hyn yn gwella'ch siawns o gael swydd ac yn eich paratoi i ymdopi â mwy o gyfrifoldeb neu at ddyrchafiad.

Yn ogystal â'r modiwlau sy'n ymwneud â phynciau penodol, bydd pob myfyriwr yn cwblhau pedwar modiwl Dysgu ar Waith a dau fodiwl yn ymwneud â Dulliau Ymchwilio a Sgiliau Astudio. Bydd y rhain yn eich ysgogi i feddwl yn annibynnol, yn gloywi'ch sgiliau o ran ysgrifennu academaidd, a ymchwilio a rhoi cyflwyniadau, yn ogystal â'ch hyfforddi i ddadansoddi a chloriannu'ch cynnydd a'ch perfformiad.

GRADD ANRHYDEDD

Mae Gradd Anrhydedd yn werth 360 o gredydau. Mewn rhai pynciau, byddwch yn astudio cwrs Gradd Anrhydedd yn llawn amser am dair blynedd. Mewn pynciau eraill, byddwch yn dilyn cwrs Gradd Sylfaen yn gyntaf ac yna'n astudio cwrs Gradd Anrhydedd Atodol am flwyddyn neu ddwy flynedd.

Pa gwrs gradd bynnag a ddewiswch, ni fydd angen i chi fynychu'r Coleg am fwy na deuddydd yr wythnos ac, felly, gallwch gwblhau eich astudiaethau a'ch gwaith cwrs ar adegau a fydd yn hwylus i chi.

PAM DEWIS COLEG LLANDRILLO CYMRU?

1. Os buoch yn byw yng Nghymru drwy'r adeg am y tair blynedd ddiwethaf, dim ond £3,375 (yn amodol ar unrhyw gynnydd blynyddol) fyddwch chi'n ei dalu os dechreuwch astudio am radd brifysgol yn 2012 un ai yng Ngholeg Llandrillo Cymru neu mewn prifysgol neu goleg arall. Bydd Llywodraeth Cymru'n talu'r gwahaniaeth rhwng £3,375 a'r tâl a godir gan y brifysgol neu'r coleg arall.

2. Os ydych yn byw gartef, gallech arbed rhai miloedd o bunnau oherwydd ni fydd raid i chi dalu'r costau llety y mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartef eu talu.

3. Mae costau byw yng Ngogledd Cymru'n is nag ydynt yn y rhan fwyaf o ddinasoedd.

4. Fel llawer o'n myfyrwyr, hwyrach y gallwch gyfuno eich gwaith astudio â gweithio am dâl.

5. Roedd adolygiad diweddar yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn hynod o gefnogol, ac mae hynny'n cadarnhau bod safonau academaidd Coleg Llandrillo Cymru gyda'r gorau.

6. Mae maint y dosbarthiadau'n fychan (yn llai na 30, fel arfer) ac, felly, byddwch yn dod i adnabod eich tiwtoriaid a'ch cyd-fyfyrwyr yn dda.

7. Mae'r darlithoedd a'r gweithdai'n rhyngweithiol ac yn rhoi cyfle i chi gymryd rhan a magu hyder.

8. Gallwch gael mynediad o bell i'n hadnoddau ar-lein ac, felly, gallwch weithio ble y mynnoch pan na fyddwch yn y Coleg.

9. Bydd ein graddau'n rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gyflogwyr eu heisiau.

10. Mae ein holl gyrsiau Gradd Sylfaen yn darparu dilyniant i gyrsiau Anrhydedd yn y Coleg hwn neu mewn prifysgol arall.

SUT GALLWN NI HELPU?

Mae dechrau ar gwrs gradd yn dod â sawl her newydd i'w ganlyn. Mae gennym ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau i'ch helpu cyn, yn ystod ac ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau.

CYNGOR AC ARWEINIAD

Mae Tîm Gwasanaethau i Fyfyrwyr wrth law yn ein Canolfannau Cyngor ac Arweiniad i roi gwybodaeth ddiduedd i chi am y dewisiadau posibl o ran meysydd astudio a gyrfa, er mwyn i chi wneud y penderfyniadau cywir. Mae gennym Gynghorwr Addysg Uwch pwrpasol ar Gampws Llandrillo-yn-Rhos: ffoniwch **01492 542 338/9** neu anfonwch e-bost i **degrees@llandrillo.ac.uk**

GOFALU AM BLANT

Ar Gampws Llandrillo-yn-Rhos, lle y cynhelir y rhan fwyaf o'r cyrsiau gradd, ceir Canolfan Gofal Plant i blant rhwng 4 mis a 4 blwydd oed. Os na fydd lle ar gael i chi, gallwn eich helpu i ddod o hyd i ofalwr plant cofrestredig. Efallai y bydd arian ar gael hefyd tuag at gostau gofal plant.

CYNGOR ARIANNOL

Bydd ein cynghorwyr yn eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion ariannol, gan gynnwys bwrsariaethau, ysgoloriaethau, grantiau a benthyciadau myfyrwyr. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol. Caiff ein gwefan ei diweddaru'n gyson: **www.llandrillo.ac.uk**

CYFLEOEDD AR ÔL GRADDIO

Efallai eich bod wedi penderfynu pa yrfa i'w dilyn ond yr hoffech fireinio eich CV neu loywi eich sgiliau cyfweliad. Neu hwyrach fod arnoch angen mymryn o gymorth i benderfynu a ddylech ymgeisio am swydd ynteu fynd ymlaen i gyrsiau proffesiynol neu ôl-radd. Beth bynnag fo'ch amgylchiadau, gall ein Cynghorwyr eich helpu gyda'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

CYFLEUSTERAU TG

Mae modd defnyddio cyfleusterau TG yn ein llyfrgelloedd, ein gweithdai TG ac amryw o'r ystafelloedd dosbarth. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys y dechnoleg a'r feddalwedd ddiweddaraf (megis amgylchedd dysgu rhithwir Moodle). Cewch eich cyfrif e-bost eich hun a mynediad i'r We.

LLYFRGELLOEDD

Ar bob campws, ceir llyfrgell gyda dewis eang o lyfrau a chylchgronau. Gallwch gael mynediad o bell i adnoddau llyfrgell Coleg Llandrillo Cymru, a threfnir hefyd i chi gael mynediad i adnoddau allanol ar gyfer cyrsiau penodol.

LLES MYFYRWYR

Mae Cydlynwyr Lles Myfyrwyr y Coleg yn cynnig cyngor cyfrinachol ar faterion personol, yn amrywio o drefnu llety i wasanaethau cwnsela.

SGILIAU ASTUDIO

Gall ein staff Cymorth Dysgu gynnig cymorth gyda Chymraeg/Saesneg, Mathemateg a Sgiliau Astudio, os bydd arnoch angen.

Cyrsiau Gradd yng Ngholeg Llandrillo Cymru

Cynhelir yr holl gyrsiau ar Gampws Llandrillo-yn-Rhos oni nodir yn wahanol. Manylion cyffredinol am ein modiwlau a roir yma. Cewch fanylion llawn am y modiwlau ar y taflenni cwrs sydd ar ein gwefan: **www.llandrillo.ac.uk**

CELF A DYLUNIO

Cyflwynir y cyrsiau mewn amgylchedd pwrpasol gan diwtoriaid sydd â chymwysterau disglair (mae pob un ohonynt yn ddylunwyr proffesiynol neu gyffelyb), yn ogystal â siaradwyr a darlithwyr gwadd. Trefnir ymweliadau cyson ag arddangosfeydd ac orielau, gan gynnwys rhai ym Mharis, Barcelona ac Amsterdam.

Gradd Sylfaen (FdA) Celf a Dylunio***

Ar y cwrs hwn, cewch gyfle i fynd i'r afael â maes eang Celf a Dylunio ac ar yr un pryd feistroli sgiliau uwch mewn maes arbenigol.

Bydd ymwneud â holl gamau'r broses greadigol yn hogi eich sgiliau ymarferol a deallusol, yn ogystal â'ch sgiliau cyfathrebu a threfnu a datrys problemau, gan roi'r hyder i chi gael swydd mewn sawl diwydiant sy'n gysylltiedig â Chelf a Dylunio.

Anogir myfyrwyr i ddatblygu eu gwaith proffesiynol eu hunain, a disgwylir iddynt arddangos eu gwaith yn gyson. Mae cyn-fyfyrwyr wedi cyfrannu'n sylweddol i fywyd artistig a chreadigol yr ardal, o ran cynnal arddangosfeydd ac ym myd gwaith.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Arferion ym maes y Celfyddydau Cymhwysol
- Dyfodolion Creadigol 1
- Egwyddorion Dylunio
- Syniadau a Chysyniadau
- Cyflwyniad i Ymchwil Gweledol
- Arferion i'w dilyn mewn Stiwdio

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Dylunio Cyd-destunol
- Dyfodolion Creadigol 2
- Aseiniad ar gyfer Arddangosfa
- Arferion Estynedig
- Arferion y Diwydiant
- Y Neges

COD UCAS:
WW12

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

*** Dyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

PEIRIANNEG CERBYDAU MODUR

Cyflwynir ein cyrsiau Peirianneg Cerbydau Modur yn y Ganolfan Technoleg Cerbydau ar Gampws y Rhyl.

Mae'r Coleg ar hyn o bryd yn ceisio cael sêl bendith i gynnal cwrs Gradd Sylfaen Technoleg Perfformiad Cerbydau. Byddai hwn yn llenwi bwlch yn y farchnad drwy ddarparu cymhwyster ar lefel prifysgol i'r rhai a hoffai weithio yn y sector cerbydau modur. Byddai hefyd yn galluogi staff sydd eisoes yn gweithio yn y sector i feistroli sgiliau newydd ac ennill cymhwyster uwch.

Gradd Sylfaen (FdSc) Technoleg Perfformiad Cerbydau*

Bydd y cwrs Gradd Sylfaen hwn yn datblygu eich sgiliau ymarferol ac academaidd hyd at safon uchel. Mae'n gwrs technegol sy'n ymdrin â damcaniaethau peirianneg sylfaenol yn ogystal â thechnolegau newydd.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Peirianneg Drydanol Cerbydau Modur
- Rhaglenni Cyfrifiadurol
- Gwyddoniaeth a Mathemateg (Sylfaen)
- Systemau Cerbydau (Sylfaen)
- Rheoli ac Ymddygiad mewn Sefydliadau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Technoleg Drydanol (Uwch)
- Technoleg Cerbydau (Uwch)
- Diagnosteg o ran Rheoli Injan
- Egwyddorion Peirianneg Uwch

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3 blynedd

* Yn amodol ar ddilysiad

Mae'r cwrs hwn ar gael am ddim i fyfyrwyr sy'n bodloni meini prawf Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

FOUNDATION DEGREE PROGRAMME PHAGLEN GRADD SYLFAEN

BUSNES, RHEOLI A CHYLLID

Gall gradd busnes roi llu o gyfleoedd newydd i chi a'ch helpu i wireddu eich potensial, drwy roi dealltwriaeth eang i chi o sut mae busnesau'n gweithio.

Bydd y graddau hyn yn darparu gwybodaeth, dirnadaeth a sgiliau arbenigol a fydd yn galluogi i chi ddatblygu'n broffesiynol ac yn academaidd.

Bydd cyn-fyfyrwyr yn dweud yn aml iddynt gael swydd, dyrchafiad neu ragor o gyfrifoldeb yn eu swydd bresennol oherwydd y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder a gawsant wrth ddilyn ein cyrsiau gradd busnes.

BA (Anrh) Rheoli a Busnes**

Amcan y cwrs BA (Anrh) Rheoli a Busnes yw datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau rheoli. Mae'r cwricwlwm eang yn ymdrin â'r holl brif ddisgyblaethau ym maes busnes ac yn canolbwyntio ar faterion cyfoes.

Bydd y cwrs yn rhoi i chi'r sgiliau priodol i ddatrys y gwahanol broblemau sy'n wynebu busnesau, gan gynnwys sgiliau dadansoddi a dehongli a fydd o fudd mawr i chi yn eich gyrfa neu'ch astudiaethau yn y dyfodol.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Amgylchedd Busnes
- Rheoli Cyllid
- Rheoli Gwybodaeth
- Rheoli ac Ymddygiad mewn Sefydliadau
- Marchnata ac Arloesi

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Cyfraith Busnes i Reolwyr
- Mentergarwch ac Entrepreneuriaeth
- Rheoli Adnoddau Dynol
- Marchnata, Cyfathrebu a Brandio
- Rheoli Gweithgareddau

MODIWLAU: BLWYDDYN 3

- Traethawd Estynedig
- Entrepreneuriaeth ac Arweinyddiaeth
- Rheoli'r Newid a geir mewn Systemau Gwybodaeth
- Rheoli Strategol
- Sefydliadau Dysgu a Datblygiad

COD UCAS:
NN1F

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 3 blynedd
Rhan-amser: 4/5 mlynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Cyfrifeg a Chyllid**

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â damcaniaethau cyfoes cyfrifeg a chyllid, a bydd yn galluogi i chi weld eu bod yn berthnasol i broblemau ymarferol. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r gwaith theori, byddwch yn ehangu'ch gwybodaeth am yr eirfa dechnegol a'r arferion cyfrifeg cyfoes.

Cyflwynir y cwrs mewn amgylchedd sy'n gydnaws â byd gwaith.

Os ydych wedi ennill cymhwyster AAT Technegydd, efallai y byddwch yn gymwys i gofrestru'n syth ar gwrs Blwyddyn 2, ac ar ôl cwblhau hwnnw, gallech fynd ymlaen i ddilyn cwrs Gradd Anrhydedd Atodol.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Cyllidebu
- Treth Fusnes
- Rheoli Credyd
- Archwilio Allanol
- Perfformiad Ariannol
- Datganiadau Ariannol
- Treth Bersonol

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Cyfraith Busnes i Reolwyr
- Treth Fusnes
- Cyllid Corfforaethol
- Economeg Ymarferol
- Cyfrifeg Rheolwyr – Gwerthuso Perfformiad

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 2/3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Rheoli a Busnes**

Bydd y cwrs Gradd Sylfaen Rheoli a Busnes yn rhoi cyfle i chi ennill y sgiliau sydd ar reolwr busnes cyfoes eu hangen. Mae'r cwricwlwm eang yn ymdrin â'r holl brif ddisgyblaethau busnes ac yn rhoi cyfle i chi arbenigo heb orfod ennill y cymwysterau proffesiynol arferol.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Amgylchedd Busnes
- Rheoli Cyllid
- Cyflwyniad i Sgiliau Rheoli ac Ymddygiad
- Rheoli Gwybodaeth
- Ymddygiad mewn Sefydliadau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Rheoli'r Ymwneud â Chwsmeriaid
- Rheoli a Datblygu Pobl
- Marchnata ac Entrepreneuriaeth
- Rheoli Gweithgareddau
- Y Rheolwr Cyfoes

COD UCAS:
NN21

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

PEIRIANNEG SIFIL AC ADEILADU

Mae Adeiladu yn un o'r prif sectorau cyflogi yng Ngwledydd Prydain. Amcan y cyrsiau gradd hyn yw diwallu anghenion y diwydiant yng Nghymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Mae Coleg Llandrillo Cymru wedi sefydlu cysylltiadau cryf â Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Dyma'r coleg cyntaf yng Nghymru (ac un o nifer bychan yng Ngwledydd Prydain) i ennill statws 'Coleg Cyswllt' RICS, y corff proffesiynol mwyaf blaenllaw yn y byd sy'n ymwneud â chymwysterau a safonau mewn perthynas â thir, eiddo ac adeiladu.

BSc (Anrh) Rheoli Adeiladu Masnachol (Atodol)**

Caiff myfyrwyr sy'n cwblhau FdSc Adeiladu fynd ymlaen i astudio BSc (Anrh) Rheoli Adeiladu Masnachol (Atodol). Bydd y cwrs hwnnw'n galluogi i chi ddatblygu'ch gyrfa ymhellach drwy feistroli'r sgiliau a meithrin yr arbenigedd sydd eu hangen i weithio ar yr haen uwch mewn meysydd fel Rheoli Masnachol a Rheoli Contractau.

MODIWLAU:

- Traethawd Estynedig
- Rheoli Cyllid
- Rheoli Prosiectau a Chynhyrchu
- Rheoli Statudol, Contractau a Chaffael
- Cynaliadwyedd a Chadwraeth

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 2 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdEng) Peirianneg Sifil**

Amcan y cwrs Gradd Sylfaen hwn yw addysgu a hyfforddi peirianwyr sifil ar gyfer gwahanol swyddi technegol.

Yn ystod y cwrs, byddwch yn astudio amryw o gysyniadau ac arferion peirianneg a seiliwyd ar hanfodion gwyddoniaeth a mathemateg.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Dulliau Dadansoddi
- Gweithgareddau ar Safleoedd Peirianneg Sifil
- Hydroleg a Dynameg Hylifau
- Dadansoddi Adeileddau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Technoleg Peirianneg Sifil
- Geotechneg
- Syrfeo Safleoedd
- Manylion Adeileddau

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdSc) Adeiladu**

Nod y cwrs hwn yw eich paratoi at yrfaoedd technegol, proffesiynol a rheoli yn y maes adeiladu. Bydd y cwrs yn rhoi gwybodaeth eang i chi am y sector adeiladu ac yn archwilio'r cysyniadau a'r egwyddorion allweddol sy'n ymwneud ag adeiladu a syrfeo. Ar ôl cwblhau'r cwrs, gallwch fynd ymlaen i astudio ar gyfer y radd Anrhydedd.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Dulliau Dadansoddi
- Gweithgareddau ar Safleoedd Adeiladu
- Dylunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Trefnau Rheoli

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Gwasanaethau Adeiladu
- Technoleg Adeiladu
- Mesur, Tendro ac Amcangyfrif
- Syrfeo Safleoedd

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

CYFRIFIADURA A THECHNOLEG GWYBODAETH

Mae cyfrifiaduron erbyn hyn yn rhan annatod o'n bywyd pob dydd. Prifysgol Glyndŵr sy'n dyfarnu ein Graddau Sylfaen yn y maes hwn, a bydd llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i ddilyn cwrs BSc Anrhydedd (Atodol). Pa gwrs Gradd Sylfaen bynnag a ddewiswch, byddwch yn gwneud prosiect yn seiliedig ar waith gyda busnes/sefydliad lleol yn eich ail flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi i chi ymhél â meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i chi a chreu cysylltiadau â busnesau/cyrff lleol, yn ogystal â chael profiadau gwerth chweil ar gyfer eich CV!

Gradd Sylfaen (FdSc) Cyfrifiadura Cymhwysol***

Nod y cwrs hwn yw rhoi i chi'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu a defnyddio meddalwedd a gwe-raglenni cyfoes.

Mae'r cwrs hwn ar gael yn ddwyieithog ar Gampws Dolgellau.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Proffesiynoldeb Ar Waith
- Egwyddorion Cyfryngau Creadigol
- Systemau Gwybodaeth a Chronfeydd Data
- Rhoi Cymorth o ran Offer Cyfrifiadurol
- Hanfodion Datblygu Meddalwedd
- Llunio Gwefannau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Rheoli Prosiectau a Datblygiad Proffesiynol
- Datblygu Systemau: Dylunio Gwrthrych - Gyfeiriadol
- Datblygu Systemau: Rhaglennu Gwrthrych - Gyfeiriadol
- Datblygu Gwe-raglenni
- Prosiect yn Seiliedig ar Waith

COD UCAS:
Llandrillo-yn-Rhos: G400
Dolgellau: G401

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

*** Dyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

Gradd Sylfaen (FdSc) Cefnogaeth TG***

Mae darparu cefnogaeth i staff sy'n defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn waith hanfodol yn y rhan fwyaf o fusnesau/ sefydliadau, ac mae galw mawr am dechnegwyr medrus sy'n gallu gwneud hyn yn dda.

Mae FdSc Cefnogaeth TG yn cyfuno astudiaethau technegol a phroffesiynol â dysgu ymarferol, er mwyn rhoi sylfaen eang o sgiliau mewn perthynas â desgiau cymorth/canolfannau galw, gweinyddu rhwydweithiau a datrys problemau.

Ar ôl iddynt raddio, bydd llawer o fyfyrwyr yn parhau â'u diddordeb mewn Cefnogaeth TG neu Rwydweithio Cyfrifiadurol drwy ddilyn cyrsiau proffesiynol Microsoft neu Cisco yma yng Ngholeg Llandrillo Cymru.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Proffesiynoldeb Ar Waith
- Systemau Gwybodaeth a Chronfeydd Data
- Rheoli Rhaglenni
- Rhoi Cymorth o ran Offer Cyfrifiadurol
- Hanfodion Datblygu Meddalwedd
- Llunio Gwefannau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Rheoli Cronfeydd Data drwy ddefnyddio SQL
- Cefnogaeth Rwydweithiol
- Rheoli Prosiectau a Datblygiad Proffesiynol
- Datblygu Gwe-raglenni
- Prosiect yn Seiliedig ar Waith

COD UCAS:
G500

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

*** Dyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

ASTUDIAETHAU BYDDARDOD

Maes sy'n datblygu yw Astudiaethau Byddardod. Byddwch yn dysgu am iaith arwyddion, ieithyddiaeth a chyfathrebu, seicoleg a'r gymuned fyddar, yn ogystal â hanes, diwylliant, addysg a llenyddiaeth y byddar.

Dyma'r cwrs Gradd Sylfaen cyntaf mewn Astudiaethau Byddardod yng Nghymru. Bydd yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth eang i chi o ddiwylliant y byddar a phynciau cyfoes sydd o bwys i'r gymuned fyddar. Ar yr un pryd, byddwch yn meithrin sgiliau galwedigaethol er mwyn gallu gweithio mewn amgylchedd lle y ceir pobl fyddar. Mae'r galwedigaethau posibl yn cynnwys arbenigwyr ieithyddol proffesiynol (sy'n gweithio gyda phobl fyddar yn y gymuned, mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion), gweithwyr cymdeithasol, awdiolegwyr, athrawon pobl fyddar, gweithwyr yn y gwasanaethau cefnogi a sefydliadau i'r byddar.

Cyn dechrau ar y cwrs, dylai ymgeiswyr feddu ar gymhwyster Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2. Cynhelir y cyrsiau Astudiaethau Byddardod yng Nghanolfan Ddysgu Bae Colwyn.

BA (Anrhydedd) Astudiaethau Byddardod (Atodol)**

Ar y cwrs hwn, byddwch yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd gennych eisoes, gan barhau â'ch datblygiad proffesiynol. Byddwch yn astudio agweddau arbenigol a blaengar ar Astudiaethau Byddardod, yn cynnwys seicoleg byddardod.

MODIWLAU:

- Pynciau Cyfoes ym maes Astudiaethau Byddardod
- Traethawd Estynedig
- Strategaethau Proffesiynol Gwasanaethau Ieithyddol
- Agweddau Seicolegol ar Fyddardod
- Cynnig Prosiect Ymchwil

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Astudiaethau Byddardod**

Bydd y cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth eang i chi o ddiwylliant y byddar a phynciau cyfoes o bwys i'r gymuned fyddar. Ar yr un pryd, byddwch yn meithrin sgiliau galwedigaethol er mwyn gallu gweithio mewn amgylchedd lle y ceir pobl fyddar.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Datblygiad Iaith Arwyddion Prydain 1
- Cyflwyniad i Fyddardod mewn Cymdeithas
- Cyflwyniad i Waith Proffesiynol ym maes Gwasanaethau Ieithyddol ac i Addasu Ieithyddol
- Gweithio gyda'r Byddar

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Datblygiad Iaith Arwyddion Prydain 2
- Agweddau ar Bolisïau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ymwneud â Byddardod
- Addysg y Byddar a Dysgu Gydol Oes
- Arferion ym maes Gwasanaethau Ieithyddol Proffesiynol

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

PEIRIANNEG, YNNI A PHŴER

Yn sgil y galw am beirianwyr yn y diwydiant ynni trydanol, mae Prifysgol Bangor a Choleg Llandrillo Cymru wedi sefydlu Gradd Sylfaen newydd i beirianwyr sy'n gweithio neu'n gobeithio gweithio yn y sector ynni sy'n datblygu yng Ngogledd Cymru.

Gradd Sylfaen (FdEng) Technoleg Ynni a Phŵer**

Amcan y Radd Sylfaen hon yw meithrin gwybodaeth a sgiliau staff technegol a pheirianegol sy'n gweithio yn y diwydiant neu sy'n gysylltiedig â'r diwydiant neu sydd â diddordeb mewn ymuno â'r diwydiant. Bydd y cwrs hwn yn gymorth i chi ddatblygu yn eich maes neu gael swydd gyda chwmni sy'n ymwneud ag ynni gwynt, ynni'r llanw, nwy, ynni niwclear neu ynni dŵr.

Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y cwrs peirianneg hwn yn cynnwys modiwlau addysgu, gweithdai, teithiau maes, modiwlau'n seiliedig ar waith ac ymweliadau â safleoedd lle y bydd myfyrwyr yn dysgu'r damcaniaethau creiddiol a'r sgiliau technegol sy'n hanfodol i beirianwyr. Yn yr ail flwyddyn, astudir damcaniaethau sylfaenol peirianneg ynni a fydd yn galluogi ymgeiswyr i weithio fel technegwyr, goruchwylwyr neu reolwyr mewn cwmnïau ynni neu gwmnïau peirianegol.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Egwyddorion Peirianneg Drydanol
- Ynni a Phŵer Trydanol
- Technegau Rheoli ym maes Peirianneg
- Mathemateg ym maes Peirianneg
- Gwyddoniaeth ym maes Peirianneg

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Effaith Technoleg Carbon Isel a Thechnoleg Ddigarbon
- Technoleg Trawsnewid Pŵer
- Dulliau Dadansoddi ym maes Peirianneg Pŵer
- Dynameg Thermo-hylifol a Throsglwyddo Gwres
- Trawsyrru, Dosbarthu a Chyflenwi

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Mae'r cwrs hwn ar gael am ddim i fyfyrwyr sy'n bodloni meini prawf Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

FOUNDATION DEGREE
PROGRAMME RHAGLEN
GRADD SYLFAEN

ASTUDIAETHAU IECHYD A GOFAL

Mae gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Coleg gyfleusterau addysgu a dysgu heb eu hail, gan gynnwys ystafelloedd pwrpasol i ddysgu cwnsela. Yn yr Adran Iechyd a Gofal, ceir dewis eang o gyrsiau Addysg Uwch.

Mae'r Coleg wedi ennill llawer o glod am ei ddarpariaeth gwnsela, ac mae'r cwrs MA/Diploma yn arwain y ffordd. Mae cyrsiau gradd yr Adran Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu wedi hen ennill eu plwyf, ac mae'r myfyrwyr yn cael canlyniadau rhagorol.

Datblygwyd y Dystysgrif/Diploma Addysg Uwch mewn Astudiaethau Iechyd a Gofal (a ddarperir mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Prifysgol Glyndŵr a Choleg Menai) ynghyd â'r cwrs gradd newydd mewn Rheoli ym maes Gofal Cymdeithasol (Oedolion), er mwyn llenwi'r bylchau a welwyd mewn addysg a hyfforddiant yn y sector.

MA/Diploma mewn Cwnsela Therapiwtig**

Cynlluniwyd y cwrs hwn i ateb gofynion amrediad o weithwyr proffesiynol ym maes Cwnsela, Gofal Iechyd Sylfaenol ac Eilaidd, Addysg, Gofal Cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Mae'r cwrs yn ymdrin ag ystod o ddamcaniaethau cwnsela.

MODIWLAU:

- Sgiliau Cwnsela Uwch
- Dulliau Cwnsela
- Integreiddiad ac Eclectigiaeth

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 2 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu (Atodol)**

Amcan y cwrs BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu yw ychwanegu at eich cymwysterau a'ch profiad blaenorol. Mae'r cwricwlwm yn ymdrin â datblygiad y gwaith a wnaed ym maes plentyndod a'r dylanwadau ar blant mewn cymdeithas amlddiwylliannol.

MODIWLAU:

- Plentyndod, Teuluoedd ac Aelwydydd
- Materion Cyfoes yn ymwneud â Phlentyndod
- Traethawd Estynedig
- Ymchwilio i'r Byd Cymdeithasol
- Arwain, Rheoli a Rolau Amlddisgyblaethol

COD UCAS:
L510

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 1 flwyddyn
Rhan-amser: 2 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

BA (Anrh) Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) (Atodol)**

Amcan y cwrs BA (Anrh) Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw ychwanegu at eich cymwysterau a'ch profiad blaenorol.

Mae'r cwrs hwn ar gael yn ddwyieithog ar Gampws Dolgellau.

MODIWLAU:

- Materion cyfoes ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3
- Traethawd Estynedig
- Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3: Rheoli Pobl
- Moeseg Ymchwilio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Anghydraddoldeb ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

COD UCAS:
Dim yn hysbys eto

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 1 flwyddyn
Rhan-amser: 2 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Technoleg Gynorthwyol

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn ceisio sêl bendith i gynnig Gradd Sylfaen (FdA) Technoleg Gynorthwyol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch â'n staff Cyngor ac Arweiniad ar **01492 542 338/9**

neu anfonwch e-bost i **degrees@llandrillo.ac.uk**
neu ewch i'n gwefan: **www.llandrillo.ac.uk**

Gradd Sylfaen (FdA) Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu**

Amcan y Radd Sylfaen Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu yw rhoi cyfle cyffrous a heriol i chi feithrin eich sgiliau ym maes gofalu am blant ac ym maes addysg.

Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gweithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a bod yn fodlon treulio deuddydd yr wythnos ar brofiad gwaith. Hefyd, bydd yn rhaid i chi gael cliriad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Agweddau ar Addysg Iechyd
- Datblygiad Plant
- Plant yn Dysgu – Syniadau Cyfoes
- Diogelu Plant

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Rheoli Ymddygiad
- Agweddau Economaidd-gymdeithasol ar Blentyndod
- Cynorthwyo'r Dysgu a'r Addysgu

COD UCAS:
XL35

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)**

Amcan y Radd Sylfaen yw rhoi golwg i chi ar y gwaith rheoli a wneir yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r cwrs hwn ar gael yn ddwyieithog ar Gampws Dolgellau.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Materion Cyfoes ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 1
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 1
- Tystiolaeth, Polisïau ac Ymarfer Proffesiynol 1
- Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 1: Y Fframwaith Deddfwriaethol a Sicrhau Ansawdd
- Sgiliau Rhyngbersonol 1
- Amddiffyn Pobl: Egwyddorion a Threfnau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Materion Cyfoes ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2
- Tystiolaeth, Polisïau ac Ymarfer Proffesiynol 2
- Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2: Rhoi Theori ar Waith
- Sgiliau Rhyngbersonol 2

COD UCAS:
LN53

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Cwnsela

Dyfernir y radd hon gan y Brifysgol Agored sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Corff Dyfarnu Canolog dros Gwnsela a Seicotherapi (y CPCAB).

MAE'R RHAGLEN ASTUDIO'N CYNNWYS TAIR ELFEN Y MAE'N RHAID EU CWBLHAU'N LLWYDDIANNUS:

- Diploma Lefel 4 y CPCAB mewn Cwnsela Therapiwtig
- Diploma Lefel 5 y CPCAB mewn Cwnsela Seicotherapiwtig
- Modiwlau'r Brifysgol Agored (90 credyd)

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 3-4 blynedd

Tystysgrif/Diploma mewn Astudiaethau Iechyd a Gofal***

Seilir y cwrs ar glwstwr o fodiwlau craidd, a datblygir modiwlau eraill i ateb gofynion galwedigaethol y dysgwyr.

MODIWLAU CRAIDD:

- Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Datblygiad Gyrfaol Personol
- Diogelu Pobl

ENGHREIFFTIAU O FODIWLAU I GYTUNO ARNYNT:

- Cyflwyniad i Faetheg
- Bod yn Ymwybodol o Iechyd Meddwl
- Cyflwyniad i Sgiliau Cwnsela

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: O 2/3 blynedd hyd at uchafswm o 8 mlynedd

*** Dyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

LLETYGARWCH AC ARLWYO

Ar y llwybr celfyddydau coginio, byddwch yn meithrin gwybodaeth ac arbenigedd ym maes rheoli, yn ogystal â datblygu a hogi'ch sgiliau coginio.

Ar y llwybr rheoli, drwy roi egwyddorion rheoli busnes ar waith ym maes arlwyo, a thrwy feithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i'r sector, cewch sylfaen gadarn ar gyfer gyrfa ym maes rheoli gwestyau a lletygarwch.

Aeth cyn-fyfyrwyr ymlaen i fod yn rheolwyr bwyd a diod, yn ffotograffwyr bwyd, yn rheolwyr cynadleddau, yn rheolwyr blaen tŷ, yn athrawon ac ymchwilwyr, a sefydlodd rhai eu busnesau eu hunain.

BA (Anrh) y Celfyddydau Coginio (Atodol)**

Cynlluniwyd y rhaglen hon i ddatblygu'ch dealltwriaeth o'r celfyddydau coginio a lletygarwch. Byddwch yn dysgu rhagor am faes tra amrywiol gastronomeg artistig, a chewch gyfle i ganolbwyntio ar fagu profiad ym maes creu bwyd a diodydd.

MODIWLAU:

- Materion Cyfoes yn ymwneud â Lletygarwch a Thwristiaeth
- Magu Profiad o Greu Bwyd a Diodydd
- Traethawd Estynedig
- Moeseg ym maes y Celfyddydau Coginio
- Arloesedd a Newid ym maes Gastronomeg

COD UCAS:
D600

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 1 flwyddyn
Rhan-amser: 2 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

BA (Anrh) Rheoli ym maes Lletygarwch**

Cynlluniwyd y cwrs BA (Anrh) Rheoli ym maes Lletygarwch i'ch paratoi i fynd yn syth i waith ac i gael gyrfa reoli ym maes lletygarwch. Ar y cwrs eang hwn, ymdrinnir ag agweddau allweddol ar y sector lletygarwch ynghyd â damcaniaethau a chysyniadau sy'n gysylltiedig â gwahanol feysydd rheoli.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Agweddau ar Reoli 1 – Rheoli Cyllid a Gwybodaeth
- Agweddau ar Reoli 2 – Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Marchnata
- Gweithgareddau Bwyd a Diod
- Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i'r Diwydiant Lletygarwch
- Gweithgareddau'r Adran Ystafelloedd

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Agweddau ar Reoli 3 – Rheoli Cyllid a Gwybodaeth
- Rheoli Cynadleddau a Digwyddiadau
- Rheoli Bwyd a Diod
- Twristiaeth Bwydydd
- Rheoli a Datblygu Pobl

MODIWLAU: BLWYDDYN 3

- Materion Cyfoes yn ymwneud â Lletygarwch a Thwristiaeth
- Traethawd Estynedig
- Moeseg ym maes Lletygarwch a Thwristiaeth
- Marchnata Lletygarwch a Thwristiaeth yn Rhyngwladol
- Rheoli Strategol

COD UCAS:
N225

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 3 blynedd
Rhan-amser: 4/5 mlynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) y Celfyddydau Coginio**

Bydd y cwrs hwn yn datblygu'ch gwybodaeth academaidd, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau ym maes y celfyddydau coginio, a bydd yn eich paratoi at weithio yn y diwydiant celfyddydau coginio.

Yn ystod y cwrs, byddwch yn meithrin dealltwriaeth gyffredinol o'r diwydiannau celfyddydau coginio, egwyddorion coginio ymarferol a'r modd y datblygwyd yr egwyddorion hynny.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Gweithgareddau Bwyd a Diod
- Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i'r Diwydiant Lletygarwch
- Maeth a Deiet
- Rheoli Refeniw a Chostau ym maes y Celfyddydau Coginio
- Dulliau Coginio Iedled y Byd

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Gastronomeg Gyfoes
- Rheoli Bwyd a Diod
- Bwyd mewn Cymdeithas Fyd-eang
- Sgiliau Creu Cynnyrch Arbenigol

COD UCAS:
D601

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Y LLYFRGELL A GWASANAETHAU GWYBODAETH

Ydych chi'n gweithio mewn llyfrgell neu mewn uned wybodaeth ar hyn o bryd? Hoffech chi gael y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth greiddiol a fydd yn galluogi i chi ddringo'r ysgol yn eich proffesiwn? Os felly, y Radd Sylfaen Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yw'r cam nesaf i chi.

Cynhelir y cwrs rhan-amser hwn un diwrnod yr wythnos am ddwy neu dair blynedd, yn dibynnu ar eich cymwysterau blaenorol. Defnyddir cyfleusterau fideo-gynadledda i gynnal y sesiynau ac, felly, mae'r cwrs ar gael i ddysgwyr ledled Cymru a thu hwnt.

Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio cael sêl bendith ar y cwrs gan Sefydliad Siartredig y Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth (CILIP). Wedyn, bydd gan bob myfyriwr sy'n dilyn y cwrs hawl i gael aelodaeth myfyriwr o'r corff proffesiynol hwn.

Er mwyn i chi gael darlun cyffredinol o wahanol swyddi, defnyddir llawer o siaradwyr gwadd ar y cwrs. Ymhlith y rhai diweddar, roedd siaradwyr o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Prifysgol Manceinion, Llyfrgelloedd Dinas Lerpwl, Gwasanaethau Gwybodaeth Corfforaethol Conwy a CILIP.

Gradd Sylfaen (FdA) Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth**

Mae'r Radd Sylfaen hon yn cynnig amrywiaeth cytbwys o fodiwlau sy'n ymdrin ag amryw o bynciau allweddol. Cewch gyfle i ennill cymhwyster academaidd cydnabyddedig tra byddwch yn gloywi'r sgiliau sydd gennych eisoes ym maes llyfrgelloedd a gwybodaeth.

Amcan y cwrs yw gwella'ch siawns o gael gwaith a'ch paratoi i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn eich swydd. Y nod yw meithrin sgiliau y mae ar gyflogwyr yn y sector llyfrgelloedd a gwybodaeth eu heisiau, yn cynnwys sgiliau arwain a rheoli, sgiliau darparu gwasanaeth i gwsmeriaid a sgiliau TGCh sy'n benodol ar gyfer llyfrgelloedd.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Y Gymdeithas Wybodaeth
- Ffynonellau Gwybodaeth
- Technoleg Llyfrgelloedd, Gwybodaeth a Chyfathrebu 1

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Rheoli Casgliadau
- Rhoi Trefn ar Wybodaeth
- Technoleg Llyfrgelloedd, Gwybodaeth a Chyfathrebu 2

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 2/3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

TECHNOLEG FOROL

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn ceisio sêl bendith ar eu Graddau Sylfaen mewn Adeiladu Morol a Thechnoleg Forol er mwyn gallu eu cynnig o fis Medi 2012 ymlaen.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch â'n staff Cyngor ac Arweiniad ar **01492 542 338/9** neu anfonwch e-bost i **degrees@llandrillo.ac.uk** neu ewch i'n gwefan: **www.llandrillo.ac.uk**

CYNHYRCHU CYFRYNGOL

Mae gan y Coleg gyfleusterau eithriadol o dda, yn cynnwys stiwdio bwrpasol i gynhyrchu ar gyfer y teledu, stiwdio recordio sain, lab amlgyfrwng, camerâu fideo soffistigedig, meddalwedd o'r un safon ag a geir yn y diwydiant, a thiwtoriaid sydd â'r wybodaeth i'ch cynorthwyo i gyflawni eich amcanion.

Gradd Sylfaen (FdA) Cynhyrchu ar gyfer y Cyfryngau Digidol a'r Teledu**

Mae'r Radd Sylfaen hon yn rhoi cyfle i chi astudio amlgyfryngau, cyfryngau a phynciau perthnasol, gan feithrin sgiliau, cymwysterau a gwybodaeth o'r radd flaenaf er mwyn eich paratoi i weithio yn y diwydiant cyfryngau. Mae'r cwrs amrywiol yn ymdrin ag ystod o bynciau allweddol. Yn ogystal â chael darlun cyffredinol o gynhyrchu ar gyfer y cyfryngau a'r teledu, cewch arbenigo mewn meysydd yr ydych yn ymddiddori ynddynt.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Astudiaethau Cyd-destunol 1
- Entrepreneuriaeth
- Cynhyrchu gan ddefnyddio nifer o gamerâu
- Technegau Cynhyrchu Proffesiynol ar gyfer y Teledu
- Astudiaethau Gweledol

YN OGYSTAL AG UN O BLITH Y CANLYNOL:

- Hanfodion Cyfryngau Rhyngweithiol
- Awduro Gwefannau a Graffigwaith Gwefannau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Astudiaethau Cyd-destunol 2
- Cyfryngau Rhyngweithiol Uwch
- Prosiect Sylweddol
- Marchnata a Hyrwyddo'ch Hun
- Effeithiau Arbennig ac Effeithiau Gweledol

COD UCAS:
WP63

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

FFOTOGRAFFIAETH

Cyflwynir y cwrs mewn ystafelloedd pwrpasol gan diwtoriaid a chanddynt gymwysterau o'r radd flaenaf. Mae llawer o'r tiwtoriaid yn ffotograffwyr proffesiynol, a bydd siaradwyr a darlithwyr gwadd yn atgyfnerthu eu gwaith. Bydd hyn yn eich paratoi i weithio mewn maes sy'n newid yn gyflym, yn sgil y chwyldro digidol. Trefnir ymweliadau rheolaidd ag arddangosfeydd ac orielau.

Bydd meithrin sgiliau a gwybodaeth greiddiol drwy gyfrwng aseiniadau unigol (e.e. dylunio cloriau llyfrau, delweddu digidol, tynnu lluniau mewn stiwdio a chreu printiau analog, manwl) yn rhoi sylfaen gadarn i chi ddewis maes i arbenigo ynddo.

Gallwch astudio'n hyblyg ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol Uwch dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd.

HND Ffotograffiaeth*

MODIWLAU: ENGHREIFFTIAU O UNEDAU CRAIDD

- Cyfathrebu Gweledol ym maes Ffotograffiaeth
- Creu a Datblygu Syniadau ym maes Ffotograffiaeth
- Arferion Proffesiynol ym maes Ffotograffiaeth

MODIWLAU: ENGHREIFFTIAU O UNEDAU ARBENIGOL

- Cyfrifiaduron ym maes Ffotograffiaeth
- Arferion i'w dilyn mewn Stiwdio
- Arferion i'w dilyn mewn Ystafell Dywyll

COD UCAS:
046W

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd

* Dyfernir y cymhwyster hwn gan Edexcel

ASTUDIAETHAU HEDDLU

Bydd y cwrs yn rhoi i chi wybodaeth gadarn am drefnau'r heddlu a'r deddfau perthnasol, yn ogystal â dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o'r her sy'n wynebu swyddogion yr heddlu heddiw.

Datblygwyd y cwrs mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, ac mae'n llwybr cydnabyddedig i gael swydd gyda'r heddlu.

Cyn dechrau ar y cwrs, bydd gofyn i chi gael eich derbyn yn Heddwas Gwirfoddol gyda Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn i chi allu cwblhau'r modiwlau Plismona Ymarferol. Gallwn roi arweiniad i chi o ran gwneud cais am fod yn Heddwas Gwirfoddol.

Gradd Sylfaen (FdA) Astudiaethau Heddlu**

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Lleihau Troseddu, a Diogelwch yn y Gymuned
- Tystiolaeth a'r Broses Droseddol
- Cyflwyniad i Blismona yng Nghymru a Lloegr
- Dyletswyddau'r Heddlu, a'r Gyfraith 1

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Ymchwiliadau Fforensig
- Plismona'r Gymuned Amrywiol
- Dyletswyddau'r Heddlu, a'r Gyfraith 2

COD UCAS:
L435

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

POLISÏAU CYHOEDDUS A CHYMDEITHASOL

Ym maes Polisïau Cyhoeddus a Chymdeithasol, cyfunir a defnyddir sawl disgyblaeth, gan gynnwys gwleidyddiaeth, polisïau cymdeithasol, economeg, cymdeithaseg a seicoleg. Byddwch yn astudio'r polisïau a'r camau gweithredu y bydd sefydliadau'r wladwriaeth yn mynd i'r afael â hwy e.e. polisïau lles yn ymwneud â thai, iechyd ac addysg. Byddwch hefyd yn astudio cymdeithasau, a'r modd y gellir gwella iechyd a hybu ffyniant pobl drwy gyfrwng polisïau cymdeithasol. Y prif faterion ym maes Polisïau Cyhoeddus a Chymdeithasol yw lles unigolion a grwpiau cymdeithasol, a'r ddadl foesol a gwleidyddol ynghylch beth yw natur lles cymdeithasol.

Byddwch yn astudio rhychwant eang o feysydd polisi, ac yn ymchwilio i'r modd y caiff polisïau eu datblygu, eu rhoi ar waith a'u gwerthuso. Archwilir amryw o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar bolisïau cyhoeddus a chymdeithasol (e.g. newidiadau mewn cymdeithas, gwerthoedd a syniadau, yn ogystal â newidiadau economaidd).

BA (Anrh) Polisïau Cyhoeddus a Chymdeithasol***

Cynhelir y cwrs gradd hwn ddeuddydd yr wythnos. Felly, gall y rhai sydd am ddychwelyd i addysg, neu sydd mewn gwaith ac am wella eu cymwysterau, astudio'n llawn amser neu'n rhan-amser. Mae'r cwrs yn addas i fyfyrwyr sydd am gael gwaith mewn sectorau preifat, gwirfoddol neu gyhoeddus sy'n ymdrin ag agweddau ar bolisïau cyhoeddus neu gymdeithasol. Mae'r radd hon hefyd yn sylfaen gadarn o ran cael eich derbyn ar raglenni recriwtio graddedigion ac i gael swyddi rheoli yn y sector preifat neu swyddi ymchwilio.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Cyflwyniad i Anghydraddoldeb Cymdeithasol
- Yr Hanfodion ym maes Polisïau Cymdeithasol
- Cyflwyniad i Gymdeithaseg
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth
- Deall Sefydliadau
- Dulliau Ymchwilio a Materion Moesegol

MODIWLAU: BLWYDDYN 2
- Llywodraethu Cymharol a Newid Cymdeithasol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cymdeithasau Byd-eang
- Y Broses Llunio Polisïau yng Ngwledydd Prydain
- Sgiliau Ymchwilio ac Ysgrifennu Traethawd Estynedig
- Agweddau Galwedigaethol ar Bolisïau Cymdeithasol

MODIWLAU: BLWYDDYN 3
MODIWLAU GORFODOL
- Materion Allweddol ym maes Lles
- Traethawd Estynedig (Modiwl Dwbl)

MODIWLAU DEWISOL (3 O'R CANLYNOL):
- Ymddygiad Caethiwus a Phroblemus
- Cam-drin Plant ac Amddiffyn Plant
- Rheoli'r Gofal am Oedolion Diamddiffyn
- Deall ac Ymateb i Droseddu ymhlith Ieuenctid

COD UCAS:
L491

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 3 blynedd
Rhan-amser: 5 mlynedd

*** Dyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

YNNI ADNEWYDDOL AC ADEILADU CYNALIADWY

Anelwyd y Radd Sylfaen mewn Dylunio ac Adeiladu Cynaliadwy at weithwyr proffesiynol neu unigolion y mae arnynt angen y wybodaeth a'r sgiliau i ddatblygu adeiladau cynaliadwy lle y defnyddir ynni adnewyddol. Nod y cwrs yw galluogi i chi ddysgu am yr amgylchedd adeiledig cynaliadwy drwy astudio pynciau fel dylunio, technoleg ynni adnewyddol, deunyddiau a phrosesau adeiladu sy'n cynnig atebion cynaliadwy ym maes adeiladu.

Ar y cwrs, byddwch yn dilyn un o ddau lwybr – Technoleg Ynni Adnewyddol neu Dechnoleg Adeiladu Adnewyddol. Bydd myfyrwyr y ddwy radd yn gwneud yr un gwaith yn y flwyddyn gyntaf, er mwyn cael sylfaen gadarn ym maes amgylcheddau adeiledig a datblygiadau cynaliadwy, cyn arbenigo yn yr ail flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, mae'r Coleg yn cynnig Gradd Sylfaen mewn Peirianneg: FdSc Ynni a Thechnolegau Pŵer. Mae'r cwrs hwn ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant trydan e.e. ffermydd gwynt, ynni'r llanw, ynni nwy, ynni dŵr ac ynni niwclear – gweler tudalen 17.

Gradd Sylfaen (FdSc) Dylunio ac Adeiladu Cynaliadwy****

Mae'r llwybr Technoleg Ynni Adnewyddol yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd am gael gwaith fel ymgynghorwyr technegol ym maes ynni effeithlon a thechnolegau ynni adnewyddol yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r llwybr Technoleg Adeiladu Cynaliadwy'n addas ar gyfer myfyrwyr sydd am gael gwaith fel ymgynghorwyr technegol ym maes datblygiadau cynaliadwy yn y diwydiant adeiladu, ac sydd am ganolbwyntio ar ddeunyddiau a gwasanaethau ac arferion adeiladu cynaliadwy.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Dulliau Dadansoddi
- Creu Dyluniadau Cyfrifiadurol a'u Defnyddio
- Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig Cynaliadwy
- Deunyddiau a Thechnoleg Adeiladu Cynaliadwy
- Hanfodion Technoleg a Deunyddiau

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Gwasanaethau Adeiladu – Dylunio a Chynnal a Chadw
- Prynu a Chontractau
- Ynni Adnewyddol

MODIWL: BLWYDDYN 2 Y LLWYBR TECHNOLEG YNNI ADNEWYDDOL

- Systemau Ynni a Phŵer

MODIWL: BLWYDDYN 2 Y LLWYBR TECHNOLEG ADEILADU CYNALIADWY

- Adeiladu Cynaliadwy

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO::
Rhan-amser: 3 blynedd

**** Gradd Prifysgol Cymru, a ddyfernir gan UWIC mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo Cymru

Mae'r cwrs hwn ar gael am ddim i fyfyrwyr sy'n bodloni meini prawf Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

WORK BASED LEARNING PROGRAMME RHAGLEN DYSGU SEILIEDIG AR WAITH

FOUNDATION DEGREE PROGRAMME RHAGLEN GRADD SYLFAEN

RHEOLI YM MAES MANWERTHU

Mae'r diwydiant manwerthu'n un o gyflogwyr mwyaf y sector preifat yng Ngwledydd Prydain, gyda 2.9 miliwn o bobl yn cael eu cyflogi mewn dros 300,000 o fannau gwerthu. Fel rheol, bydd rheolwyr siopau, uwch brynwyr a phrif staff swyddfeydd yn dechrau ar gyflog o dros £20,000. Ar ôl iddynt fagu profiad a chael mwy o gyfrifoldebau rheoli, gall eu cyflogau godi i £50,000 - £100,000.

Cydnabyddir bod y diwydiant manwerthu'n faes sy'n ehangu yng Ngogledd Cymru, a bydd y graddau hyn yn diwallu anghenion y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y maes manwerthu ac sydd am ddatblygu eu sgiliau rheoli sector-benodol. Bydd y cyrsiau galwedigaethol hyn yn berthnasol i sefydliadau mawr a mân, a chanolbwyntir ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau rheoli sy'n angenrheidiol i redeg busnes manwerthu llwyddiannus.

Bydd gan y myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs Gradd Sylfaen yn llwyddiannus y dewis o fynd ymlaen i ddilyn cwrs BA (Anrh) Rheoli ym maes Manwerthu (Atodol).

BA (Anrh) Rheoli ym maes Manwerthu (Atodol)**

Ar y cwrs, byddwch yn meithrin eich dealltwriaeth o sefydliadau manwerthu, eu strwythurau mewnol a'r modd y cânt eu rheoli. Cewch ddysgu rhagor am yr amgylchedd allanol y mae busnesau manwerthu'n gweithredu ynddo ac am y ffactorau cyfreithiol, gwleidyddol, moesegol a thechnolegol sy'n dylanwadu ar fusnesau.

Byddwch yn paratoi at yrfa lwyddiannus ym maes rheoli, gan astudio'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â rheoli'n effeithiol.

MODIWLAU:

- Traethawd Estynedig
- Rheoli'r Newid a geir mewn Systemau Gwybodaeth
- Rheoli Adnoddau Dynol yn Strategol
- Rheoli Strategol
- Rheoli Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy

COD UCAS:
N240

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 1 flwyddyn
Rhan-amser: 2 flwyddyn

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

Gradd Sylfaen (FdA) Rheoli ym maes Manwerthu**

Mae'r Radd Sylfaen mewn Rheoli ym maes Manwerthu'n galluogi i chi ddatblygu dealltwriaeth eang o'r maes manwerthu a'i defnyddio mewn sefyllfa waith go iawn. Mae'r sector manwerthu'n rhoi gwerth ar addysg yn ogystal ag ar brofiad ymarferol. Felly, bydd y cwrs hwn yn meithrin eich gallu i rannu eich dealltwriaeth academaidd yn y gweithle.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Gwasanaeth Cyfoes i Gwsmeriaid
- Systemau Gwybodaeth Reoli
- Cyllid Manwerthu
- Marchnata a Hyrwyddo ym maes Manwerthu
- Yr Amgylchedd Manwerthu sy'n Datblygu
- Datblygiad Technoleg ym maes Manwerthu

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Rheoli Adnoddau Dynol Cyfoes
- Y Gyfraith i Reolwyr ym maes Manwerthu
- Rheoli Gweithgareddau
- Y Rheolwr Cyfoes
- Marchnata Gweledol a Seicoleg

COD UCAS:
N241

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn Amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

CHWARAEON

Mae gan hyfforddwyr chwaraeon gyfrifoldeb hollbwysig i annog pobl i fyw bywyd iach a chymryd rhan mewn chwaraeon yn eu cymunedau, a chyfrifoldeb hefyd i hybu bywyd iach a chwaraeon ar bob lefel, o'r gwaelod i'r brig.

Amcan ein cyrsiau yw cynhyrchu hyfforddwyr chwaraeon effeithiol sy'n gwybod am wyddor chwaraeon ac yn meddu ar y sgiliau hyfforddi a dadansoddi sydd eu hangen i wella perfformiad. Disgwylir i chi fynd i nifer o leoliadau i gael profiad o hyfforddi a datblygu chwaraeon, er mwyn rhoi'r theori ar waith mewn sefyllfaoedd hyfforddi ymarferol. Cewch hefyd gyfle i ennill amryw o dystysgrifau proffesiynol. Gallwch gynnig am swyddi gydag awdurdodau lleol, gallwch fynd yn athro, gweithio i gyrff rheoli chwaraeon neu ymuno â'r lluoedd arfog. Mae'r Coleg yn bwriadu cynnig ail lwybr, a fydd yn canolbwyntio ar adfer iechyd yn dilyn anafiadau.

BA (Anrh) Hyfforddiant Chwaraeon (Atodol)**

MODIWLAU:

- Rhaglenni Ymarfer Uwch
- Traethawd Estynedig
- Entrepreneuriaeth ac Arweinyddiaeth
- Materion Allweddol ym maes Hyfforddiant Chwaraeon ac Ymarfer
- Poblogaethau Arbennig

COD UCAS:
CX61

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 1 flwyddyn
Rhan-amser: 2 flynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

FdSc Hyfforddiant Chwaraeon**

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Anatomeg a Ffisioleg
- Asesu Ffitrwydd
- Egwyddorion Hyfforddi
- Maeth a Pherfformiad ym maes Chwaraeon

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Arferion Hyfforddi
- Sicrhau'r Perfformiad Gorau
- Dadansoddi Perfformiad
- Cryfder a Chyflyru

COD UCAS:
CX6C

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 2 flynedd
Rhan-amser: 3 blynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

HYFFORDDIANT ATHRAWON

Mae ein cymwysterau hyfforddi athrawon yn addas i'r rhai sy'n awyddus i weithio yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Nid ydynt yn addas i'r rhai sydd am weithio mewn ysgolion cynradd neu uwchradd.

BA (Anrh) Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol*****

Pwrpas y radd hon yw rhoi cyfle i'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ennill statws graddedigion. Y bwriad yw ehangu a dyfnhau eich gwybodaeth am y materion allweddol ym maes addysg a hyfforddiant, a rhoi i chi'r sgiliau sydd eu hangen i gamu ymlaen yn eich proffesiwn.

Bydd gofyn i chi feddu ar Dystysgrif Addysg Ôl-Orfodol.

Dim ond ar Gampws Dolgellau y cynigir y cwrs hwn.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1
MODIWLAU CRAIDD:

- Prosiect 1
- Dulliau Ymchwilio
- Seicoleg Gymdeithasol yn yr Amgylchedd Dysgu
- Ffyniant a Dysgu Gydol Oes

MODIWLAU DEWISOL:

- Dysgu Llythrennedd o ran Iaith, Hunaniaeth a Diwylliant
- Ansawdd yn y Sector Dysgu Gydol Oes

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Materion Allweddol Cyfoes
- Dysgu'n Seiliedig ar Adnoddau
- Meddwl yn Feirniadol
- Deall Sefydliadau
- Prosiect 2

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 2 flynedd

***** Dilysir a dyfernir gan Brifysgol Cymru, Casnewydd

Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR)***** neu Dystysgrif mewn Addysg (Tyst Add)*****

Lluniwyd y cwrs hwn i ateb anghenion datblygiad personol a phroffesiynol y rhai sy'n bwriadu mynd i addysgu neu sydd wrthi'n addysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, fe gewch y cymhwyster y mae'n rhaid i'r rhai sy'n awyddus i addysgu ym maes Addysg Bellach ei gael. Lefel yr astudio ar gyfer TBAR yw 4/6, a 4/5 yw'r lefel ar gyfer Tyst Add, yn dibynnu ar eich cymwysterau mynediad. Gallwch astudio'r modiwl rhagarweiniol (Paratoi at Addysgu) ar eich liwt eich hun.

Cynigir y cwrs ar Gampysau Dolgellau, Pwllheli a Llandrillo-yn-Rhos.

GOFYNION MYNEDIAD

Bydd gofyn i chi:

- fod yn o leiaf 18 mlwydd oed i ddilyn y cwrs hwn
- cael profiad ymarferol o annog dysgu yn y gweithle
- cael cliriad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol
- cael o leiaf 150 o oriau o ymarfer addysgu dros ddwy flynedd y cwrs

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

MODIWLAU CYFFREDINOL:

- Seiliau Dysgu ac Addysgu
- Cynllunio ac Asesu
- Paratoi at Addysgu
- Datblygiad ac Ymarfer Proffesiynol 1

MODIWLAU ARBENIGOL:

- Cyflwyniad i Lythrennedd/ Rhifedd i Oedolion
- Dysgu Llythrennedd/ Rhifedd mewn Cyd-destun Cymdeithasol
- Ieithoedd mewn Cyd-destun Cymdeithasol/Damcaniaethau sy'n Datblygu ynghylch Rhifedd

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Datblygu'r Cwricwlwm ar gyfer Dysgu Cynhwysol
- Datblygiad ac Ymarfer Proffesiynol 2
- Ehangu Ymarfer Proffesiynol

COD UCAS:
Dim yn berthnasol

PATRYMAU ASTUDIO:
Rhan-amser: 2 flynedd

***** Dilysir a dyfernir gan Brifysgol Cymru, Casnewydd

TEITHIO A THWRISTIAETH

Bydd y cyrsiau hyn yn rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol a fydd yn galluogi i chi ddatblygu'n broffesiynol ac yn academaidd. Mae graddedigion yn aml wedi priodoli'r dyrchafiadau a gawsant i'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder a roddwyd iddynt ar y cyrsiau hyn.

BA (Anrh) Rheoli Teithio a Thwristiaeth**

Bydd y radd hon yn rhoi gwybodaeth drwyadl i chi am y ffordd y mae busnesau teithio a thwristiaeth yn gweithio, ac yn eich paratoi at yrfa yn y sector byd-eang hwn. Bydd y cwrs hefyd yn eich helpu i ehangu'ch gwybodaeth am fusnes a datblygu'r sgiliau rheoli y bydd arnoch eu hangen i gyflawni'ch potensial.

MODIWLAU: BLWYDDYN 1

- Agweddau ar Reoli 1: Cyllid a Rheoli Gwybodaeth
- Agweddau ar Reoli 2: Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Marchnata
- Twristiaeth yn sgil Busnes
- Agweddau Byd-eang ar Dwristiaeth
- Cyflwyniad i Ddiwydiant Teithio a Thwristiaeth y Deyrnas Gyfunol

MODIWLAU: BLWYDDYN 2

- Agweddau ar Reoli 3: Cyllid a Rheoli Gwybodaeth
- Rheoli o ran Cyrchfannau
- Dehongli Etifeddiaeth, y Celfyddydau a Diwylliant
- Rheoli a Datblygu Pobl
- Twristiaeth ar gyfer Diddordebau Penodol

MODIWLAU: BLWYDDYN 3

- Materion Cyfoes ym maes Lletygarwch a Thwristiaeth
- Traethawd Estynedig
- Moeseg ym maes Lletygarwch a Thwristiaeth
- Marchnata Lletygarwch a Thwristiaeth yn Rhyngwladol
- Rheoli Strategol

COD UCAS:
N802

PATRYMAU ASTUDIO:
Llawn amser: 3 blynedd
Rhan-amser: 4/5 mlynedd

** Dilyswyd gan Brifysgol Bangor

BA (Anrh) Twristiaeth a Lletygarwch (Atodol)

Mae'r Coleg yn ceisio cael sêl bendith gan Brifysgol Bangor i gynnal cwrs BA (Anrh) Twristiaeth a Lletygarwch (Atodol).

Cwrs atodol un flwyddyn wedi'i anelu'n bennaf at fyfyrwyr tramor sydd eisoes wedi ennill cymhwyster Lefel 5 mewn Twristiaeth a Lletygarwch.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n Swyddfa Ryngwladol ar: **+ 44 (0)1492 542 315/9** neu anfonwch neges e-bost i **international@llandrillo.ac.uk**

Gradd Sylfaen (FdA) Tywys Ymwelwyr

Mae'r Coleg ar hyn o bryd yn ceisio cael sêl bendith i gynnal cwrs Gradd Sylfaen mewn Tywys Ymwelwyr (sy'n gyfwerth â Bathodyn Glas Cymru) gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Bydd y cwrs yn cael ei anelu at y rhai sy'n awyddus i fod yn dywyswyr teithiau ar eu liwt eu hunain. Cysylltwch â'r Coleg i gael rhagor o wybodaeth.

BETH ARALL DDYLWN I EI WYBOD?

Mae gan y Coleg ddeg prif gampws ar hyd a lled Gogledd Cymru, a chynhelir y rhan fwyaf o'n cyrsiau gradd ar Gampws Llandrillo-yn-Rhos. Bydd ein Cynghorwr Addysg Uwch a'n Tîm Gwasanaethau i Fyfyrwyr yn ein Canolfannau Cyngor ac Arweiniad yn gallu rhoi gwybodaeth fanylach i chi am ffioedd cyrsiau llawn amser a rhan-amser, yn ogystal ac am unrhyw gymorth ariannol a fydd ar gael.

MODIWLAU A CHREDYDAU'R CYRSIAU

Er y bydd y modiwlau a restrir yn yr Arweiniad hwn yn rhoi syniad i chi o gynnwys pob cwrs, ni restrwyd yr holl fodiwlau y byddwch yn eu hastudio. Fe gewch y wybodaeth honno ar y taflenni cwrs unigol sydd ar wefan y Coleg. Bob blwyddyn, byddwch yn astudio nifer o fodiwlau gwahanol, ac o ran maint, byddant yn amrywio rhwng 5 ac 20 o gredydau.

PATRYMAU ASTUDIO

Mae'r patrymau astudio a nodir ar gyfer pob cwrs yn gysylltiedig â nifer y credydau a astudir yn ystod y flwyddyn golegol. Ar gwrs llawn amser, byddwch yn astudio 120 o gredydau yn ystod pob blwyddyn golegol ddeuddeng mis (Medi – Awst). Ar gwrs rhan-amser, byddwch yn astudio hyd at 90 o gredydau.

FFÏOEDD LLAWN AMSER A RHAN-AMSER

Nifer y credydau y byddwch yn eu hastudio yn ystod blwyddyn golegol ddeuddeng mis, ac nid eich patrwm mynychu, fydd yn pennu ai ffioedd llawn amser ynteu ffioedd rhan-amser y byddwch yn eu talu.

Bydd gofyn i chi dalu ffioedd llawn amser os byddwch yn astudio 120 o gredydau yn ystod blwyddyn golegol ddeuddeng mis.

Os byddwch yn astudio hyd at 90 o gredydau mewn blwyddyn golegol ddeuddeng mis, ffioedd rhan-amser fyddwch chi'n eu talu.

MYNYCHU'N LLAWN AMSER YNTEU'N RHAN-AMSER

Wrth astudio cwrs llawn amser, ni fydd angen i chi fod yn y Coleg bedwar neu bump diwrnod yr wythnos. Bydd y patrwm mynychu'n amrywio o gwrs i gwrs ond pa gwrs bynnag fyddwch chi'n ei ddilyn, dim ond ar un diwrnod neu ddau yr wythnos y bydd gennych ddosbarth, hyd yn oed os byddwch yn astudio'n llawn amser. Cynhelir rhai dosbarthiadau fin nos, cynhelir eraill am tua 30 wythnos, cynhelir eraill am tua 45 wythnos yn ystod pob blwyddyn golegol ddeuddeng mis.

CYMORTH ARIANNOL

Efallai y cewch gymorth ariannol i ddilyn eich astudiaethau.

SUT MAE GWNEUD CAIS?

O ran ffioedd, os ystyrir mai cwrs llawn amser yw eich cwrs, bydd gofyn i chi wneud cais drwy system ar-lein Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) sef 'Apply'. Ewch i **www.ucas.ac.uk**. Cod y Coleg yw **L53**.

Os ystyrir mai cwrs rhan-amser yw eich cwrs, bydd gofyn i chi lenwi ffurflen gais y Coleg sydd ar gael ar ein gwefan neu o unrhyw un o'n campysau.

Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr tramor i astudio'n llawn amser. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Swyddfa Ryngwladol ar **+44 (0) 1492 542 315/9** neu anfonwch e-bost i **international@llandrillo.ac.uk**

Os nad ydych wedi penderfynu eto neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol batrymau mynychu neu'r ffioedd cwrs neu'r cymorth ariannol a allai fod ar gael i chi, cysylltwch â'r canlynol i gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Cyngor ac Arweiniad: **01492 542 338/9**
Cynghorwr Addysg Uwch:
01492 546 666 est. 480
degrees@llandrillo.ac.uk
www.llandrillo.ac.uk
www.studentfinancewales.co.uk

SUT MAE CYSYLLTU Â'R COLEG?

Coleg Llandrillo Cymru, Rhos
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn LL28 4HZ
Switsfwrdd: **01492 546 666**
Y Ganolfan Cyngor ac Arweiniad
01492 542 338/9
degrees@llandrillo.ac.uk

Coleg Llandrillo Cymru, Abergele
Rhodfa'r Faenol, Abergele,
Conwy LL22 7HT
01745 828 100
abergeleadmissions@llandrillo.ac.uk

Canolfan Ddysgu'r Bae
47 Ffordd Conwy
Bae Colwyn LL29 7AW
01492 546 666 est. **537**

Coleg Llandrillo Cymru, Dinbych
Lôn y Goron, Dinbych,
Sir Ddinbych LL16 3SY
01745 812 812
denbighadmissions@llandrillo.ac.uk

Coleg Meirion-Dwyfor, Dolgellau
Ffordd Ty'n y Coed, Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827
dolgellau@llandrillo.ac.uk

Coleg Llandrillo Cymru, Glasdir Llanrwst
Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf,
Llanrwst LL26 0DF
01492 546 666 est. **723**
llanrwstadmissions@llandrillo.ac.uk

Coleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon
Ffordd Clynnog, Caernarfon
Gwynedd LL54 5DU
01286 830 261
glynllifon@llandrillo.ac.uk

Coleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli
Penrallt, Pwllheli
Gwynedd LL53 5EB
01758 701 385
pwllheli@llandrillo.ac.uk

Coleg Llandrillo Cymru, Y Rhyl
Ffordd Cefndy, Y Rhyl,
Sir Ddinbych LL18 2HG
01745 354 797
rhyladmissions@llandrillo.ac.uk

Pwynt Busnes, Llanelwy
Coleg Llandrillo Cymru
Uned 6, Ffordd Richard Davies
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy, Sir Ddinbych
LL17 0LJ
0845 4 50 59 60
businesspoint@llandrillo.ac.uk

Pwynt Busnes, Dolgellau
0845 4 50 59 60
businesspoint@llandrillo.ac.uk

SUT I DDOD O HYD I NI:

facebook.com/colegllandrillo

@colegllandrillo